Ei SMART

A better start for high - risk infants

Dechrau gwell i fabanod

Synhwyraidd | Echddygol | Sylw/Rheolaeth | Cydberthnasau | Gyda'ch gilydd

**Helpu fy mabi i ddysgu drwy chwarae: 9 i 12 mis oed.**

Visit our website www.eismart.co.uk @EISmart @EI_Smart

# EXPLORING, INTERACTING AND IMITATING

| Syniad Chwarae | Sut mae'n helpu fy mabi? |
|---|---|

## Chwarae ag eitemau yn y cartref



## Chwarae â blychau a phapur



### Helpu fy mabi i ddysgu drwy archwilio eitemau pob dydd

- Datblygu chwarae creadigol
- Dynwared rhieni a brodyr a chwiorydd
- Defnyddio dwy law i archwilio gwrthrychau o siapiau a meintiau gwahanol
- Datrys problemau drwy chwarae

## Blociau Adeiladu a Chwpanau Stacio



## Didoli Siapiau



## Posau Gosod




## Cwpanau a llwyau



### Helpu fy mabi gan ddefnyddio ei ddwylo i ddysgu.

- Defnyddio dwy law.
- Gweithio ar afael a rhyddhau.
- Tynnu pethau oddi wrth ei gilydd a'u gwthio'n ôl.
- Deall siapiau.
- Deall cysyniadau newydd.
  - o Adeiladu a rhoi pethau ar y brig.
  - o Rhoi gwrthrychau mewn cynwysyddion.
  - o Sut mae pethau'n ffitio gyda'i gilydd.

## Teganau naid






### Helpu fy mabi i ddysgu drwy wneud

Pwyso, troi, cau pethau
- Rhoi bysedd mewn tyllau
- Dechrau deall achos ac effaith

## Llyfrau





### Helpu fy mabi i adeiladu ei iaith

- Pwyntio gyda'i fynegfys
- Pwyntio at yr hyn mae ei eisiau
- Troi tudalennau
- Adeiladu sylw a ffocws cynyddol
- Dynwared geiriau cyntaf fel "cath" a "pêl"

## Cerddwyr babi





### Helpu fy mabi i baratoi i weithio

- Sefyll a chymryd camau gyda chymorth
- Os byddwch yn defnyddio cerddwr babi, dewiswch un gwthio yn hytrach nag un y bydd eich babi yn eistedd ynddo.

**Wyddech chi?** Ar yr oedran yma, gall babanod bwyntio a defnyddio ystumiau a synau i gyfathrebu yr hyn sydd ei eisiau a'i angen arnynt. Ymatebwch i synau eich babi er mwyn annog proses gyfathrebu ddwy ffordd.

Drwy chwarae y bydd plentyn yn dysgu. Crëwyd y daflen hon i gynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau a all helpu i feithrin sgiliau iaith, gwybyddol ac echddygol. Nid yw'r ffocws ar frandiau penodol o deganau ac nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Mae datblygiad yn amrywio o blentyn i blentyn ac os oes gennych unrhyw bryderon am eich plentyn, siaradwch â'ch meddyg teulu neu eich ymwelydd iechyd.

*© 2022 Ei SMART* *Diolch i Cerebral Palsy Cymru am ariannu cyfieithiad Cymraeg a hefyd i Angharad Smiriglia, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda*

CEREBRAL PALSY CYMRU

Ei SMART

A better start for high - risk infants

Dechrau gwell i fabanod


Synhwyraidd | Echddygol | Sylw/Rheolaeth | Cydberthnasau | Gyda'ch gilydd

# Awgrymiadau ar sut i gael babanod 9 i 12 mis oed i ymgysylltu'n well wrth chwarae:

Visit our website www.eismart.co.uk @EISmart @EI_Smart

## Sgiliau adeiladu

### Hybu Tynnu i Sefyll



Rhowch degan ar arwyneb uwch, fel soffa; anogwch eich babi i dynnu i fyny i sefyll

### Ymarfer ystumiau newydd wrth chwarae



Ymarferwch chwifio, curo dwylo, pwyntio, ysgwyd y pen ar gyfer "ie" a "na". Bydd y rhain yn helpu â'r gallu i gyfathrebu, deall ac ymateb i iaith.

### Ymarfer Cymryd Tro



Rholiwch bêl yn ôl ac ymlaen. Darllenwch i'ch babi gan adael iddo gymryd tro yn rhyngweithio â'r lluniau a/neu'n troi'r

## Cofiwch bwysigrwydd ...

### Symud teganau o gwmpas




Symudwch deganau i ystafelloedd gwahanol; Cuddiwch deganau gwahanol am gyfnodau, fel bod eich babi yn teimlo bod tegan sy'n ymddangos eto yn un newydd. Bydd hyn yn ei annog i gymryd diddordeb a thalu sylw.

### Disgrifio gweithredoedd drwy gydol y dydd



Dywedwch wrth eich babi beth sy'n digwydd ac enwch wrthrychau h.y. "rydyn ni'n mynd i'r parc", "dyma dy laeth". Dylech annog eich babi i ymateb hyd yn oed os nad yw'n gwneud hynny â geiriau.

### Twf Cymdeithasol ac Emosiynol



Bydd eich babi yn dechrau defnyddio emosiynau mewn modd rhyngweithiol, pwrpasol, h.y.: Cael eich sylw drwy weiddi a chwifio.

## Cadw eich babi yn ddiogel...

### Atal llosgiadau



Peidiwch byth â gadael eitemau yn coginio ar y stof heb eu goruchwylio. Cadwch hylifau poeth allan o gyrraedd plant.


.

### Osgoi cerddwyr lle mae'r babi yn eistedd



Gallant atal y babi rhag cerdded a gallant fod yn beryglus. Gall rhai cerddwyr babi droi drosodd gan achosi i'r babi syrthio allan..

### Parhau i osgoi amser sgrin



Noder: pan fydd y teledu ymlaen yn yr ystafell, efallai y bydd rhieni'n siarad llai a'u babi. Mae llai o siarad yn golygu llai o ddysgu. Mae babanod o'r oedran yma yn hoffi siarad a rhyngweithio â chi..

**Wyddech chi?** Gall babanod o'r oedran yma fynd yn bryderus iawn pan na allant eich gweld. Gall siarad â nhw pan fyddwch mewn ystafell arall roi tawelwch meddwl iddynt eich bod yno ac y byddwch yn dod nôl.

Drwy chwarae y bydd plentyn yn dysgu. Crëwyd y daflen hon i gynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau a all helpu i feithrin sgiliau iaith, gwybyddol ac echddygol. Nid yw'r ffocws ar frandiau penodol o deganau ac nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Mae datblygiad yn amrywio o blentyn i blentyn ac os oes gennych unrhyw bryderon am eich plentyn, siaradwch â'ch meddyg teulu neu eich ymwelydd iechyd.

*© 2022 Ei SMART* *Diolch i Cerebral Palsy Cymru am ariannu cyfieithiad Cymraeg a hefyd i Angharad Smiriglia, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda*

CEREBRAL PALSY CYMRU